# Sut i wneud eli y Feddyges Las a Llyriad

**Byddwch angen:**

- Y Feddyges Las a Llyriad (Maent i'w gweld yn tyfu'n helaeth yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn!)
- Cwpan o olew olewydd
- 2 jar wedi'u sterileiddio'n lân
- Hidlydd te.





**Cam 1.** Dewiswch gwpan sy'n llawn o lyriad (dail) a'r feddyges las (dail a phennau blodau.) Golchwch y mwd os oes angen.

**Cam 2.** Torrwch y perlysiau a'u gadael i sychu ychydig dros nos.

**Cam 3.** Rhowch y perlysiau mewn jar lân a'u gorchuddio ag olew olewydd. Gwasgwch y cyfan i lawr yn yr olew, gan wneud yn siŵr nad oes unrhyw un o'r perlysiau yn uwch na lefel yr olew. Gosodwch y caead ar y jar.

**Cam 4.** Caniatewch i nodweddion iachau y planhigion drwytho i mewn i'r olew - gadewch yr olew ar silff ffenestr neu mewn lle cynnes am un wythnos. Trowch y cymysgedd bob dydd a sicrhewch fod y perlysiau yn cael eu gwasgu'n ôl o dan yr olew.

**Cam 5.** Hidlwch eich olew llysieuol gan ddefnyddio hidlydd te mân (neu fwslin) i mewn i jar lân. Cofiwch labelu eich cynnyrch!